



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllaw i Geidwaid Defaid a Geifr 2021



Mae'r llawlyfr hwn yn disodli canllaw cynharach a gyhoeddwyd yn 2010 ac yn esbonio'r rheolau sy'n gymwys yng Nghymru. Cyhoeddir canllawiau tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Noder y gall fod gwahaniaethau rhwng y gwahanol wledydd hyn.

Am ragor o wybodaeth

Gwefan: www.wales.gov.uk/sheepEID

E-bost: Adnaboddabyw.LivestockID@gov.wales

Taliadau Gwledig Cymru

Blwch Post 251
Caernarfon
LL55 9DA

Y Ganolfan Gyswilt: 0300 062 5004

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid
Swyddfeydd Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN

Ffôn: 0300 303 8268

E-bost: apha.cymruwales@apha.gov.uk

EIDCymru

Tŷ Merlin
Parc Merlin
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3FF

Ffôn: 01970 636959

E-bost: contact@EIDCymru.org

Canllaw i Geidwaid Defaid a Geifr 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Adran Un: Tir	4
Adran Dau: Adnabod	5
Adran Tri: Cofnodion	9
Adran Pedwar: Symudiadau ac Adrodd am Symudiadau	11
Adran Pump: Archwiliadau	18
Adran Chwech: Geifr	20
Termau	22

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn disodli **Canllaw i Geidwaid – Rheolau Adnabod Defaid a Geifr**, Ionawr 2010. Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut mae'n rhaid i geidwaid adnabod defaid a geifr, a rhoi gwybod am eu symudiadau, i gydymffurfio â Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

Adran Un: Tir

Beth yw daliad?

Daliad yw man lle caiff da byw sy'n cael eu ffermio eu cadw neu eu trin. Mae ffermydd, marchnadoedd da byw, canolfannau casglu a lladd-dai yn enghreifftiau o ddaliadau ac maent yn cael eu hadnabod drwy system Rhif Daliad (CPH).

Efallai y bydd gan rai ceidwaid fwy nag un daliad ac y bydd rhai daliadau yn cael eu defnyddio gan fwy nag un ceidwad.

Sut i gael rhif daliad (CPH)?

Mae'n rhaid cofrestru'r holl dir ac adeiladau lle cedwir defaid a geifr hyd yn oed os ydych yn berchen ar un anifail anwes yn unig.

I gael rhif adnabod daliad (CPH), yn gyntaf bydd angen ichi gael Cyfeirnod Cwsmer (CRN) gan Daliadau Gwledig Cymru (RPW) drwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Ar ôl llenwi eich cais CPH ar Rheoli Fy CPH, fe'ch hysbysir o'ch rhif CPH newydd drwy eich cyfrif RPW ar-lein.

I gwsmeriaid presennol, dylech ddefnyddio gwasanaeth Rheoli Fy CPH (<https://beta.llyw.cymru/rpw-ar-lein-defnyddio-rheoli-fy-cph>) RPW ar-lein.

Pan fyddwch yn ymgymryd â neu'n rhoi'r gorau i dir lle'r ydych yn cadw defaid a geifr, mae'n rhaid ichi ddiweddarau manylion y tir ar Rheoli Fy CPH.

Os cewch unrhyw broblemau, ffoniwch y ganolfan gyswllt i gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Cael rhif y ddiadell

Ar ôl ichi gael rhif CPH bydd angen cysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a fydd yn dyrannu nod diadell (defaid) neu eifre (geifr) ar gyfer eich daliad a'ch cofrestru'n geidwad stoc. Mae'r nod diadell neu eifre yn ofynnol cyn ichi brynu tagiau clust neu ddyfeisiau adnabod electronig sydd wedi'u rhifo'n swyddogol.

Prynu eich dyfeisiau adnabod/tagiau clust

I archebu eich dyfeisiau adnabod/tagiau clust mae angen eich rhif CPH a nod diadell/geifre. Mae'r rhifau adnabod sydd wedi'u hargraffu arnynt wedi'u dyrannu gan System Dyrannu Tagiau Clust y DU (ETAS) i gyflenwyr dyfeisiau adnabod/tagiau clust cymeradwy. Mae rhestr o gyflenwyr a'u cynhyrchion cymeradwy ar y wefan ganlynol. <https://www.gov.uk/government/publications/approved-sheep-and-goat-ear-tag-suppliers>

Darllenwyr Dyfeisiau Adnabod Electronig (EID)

Os ydych yn dymuno prynu darlennydd Dyfeisiau Adnabod Electronig maent ar gael gan eich cyflenwr tagiau clust neu fentrau cydweithredol ffermwyr lleol. Sicrhewch fod unrhyw offer yn cyrraedd y safonau angenrheidiol a nodir gan yr UE.

Adran Dau: Adnabod

Rhaid rhoi dyfais adnabod ar bob dafad. Mae'r adran hon yn edrych ar y mathau o ddyfeisiau y cewch eu defnyddio.

O ran ŵyn sy'n cael eu geni ar eich daliad, **mae'n rhaid rhoi dyfais adnabod arnynt cyn iddynt symud o'r daliad neu cyn iddynt gyrraedd:**

- **6 mis** oed ar gyfer defaid a gedwir dan systemau ffermio dwys (h.y. rhai a gedwir dan do drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag ar borfa)
- **9 mis** oed ar gyfer defaid a gedwir dan systemau ffermio llai dwys.

Mae gan EID llawn ddwy ddyfais adnabod, un electronig ac un weledol.

1. Gall y ddyfais electronig fod yn dag clust, bolws neu, ar gyfer defaid sy'n aros o fewn y DU, farc bigwrn.
2. Gall y ddyfais weledol fod yn dag clust, marc bigwrn neu, ar gyfer defaid sy'n aros o fewn y DU, datŵ.

Bydd y rhif unigol ar y ddwy ddyfais yn union yr un fath a bydd yn rhaid eu cofnodi ar gofnod y ddiadell.

Beth yw EID llawn?

Rhaid rhoi EID llawn ar ŵyn y bwriedir eu hallforio'n fyw, ŵyn sy'n cael eu cadw dros eu 12 mis oed ar gyfer bridio a hesbinod stôr/tew y bwriedir eu lladd ar ôl eu 12 mis oed.

Mae amrywiaeth o ddyfeisiau adnabod ar gael ar gyfer EID llawn. Caniateir y cyfuniadau canlynol:

Dyfais EID	Dyfais Adnabod Gofensiynol	Yn iawn ar gyfer masnachu o fewn y Gymuned?
Tag clust EID	Tag clust confensiynol	Ydy
Tag clust EID	Tatŵ	Na
Bolws EID	Tag clust/marc bigwrn confensiynol Rhaid iddo fod yn Ddu	Ydy
Tag clust EID	Marc bigwrn confensiynol	Ydy
Marc bigwrn EID	Tag clust confensiynol	Na

Mae'n rhaid i ddyfeisiau EID gario'r un rhif. Gellir darllen tagiau â llaw neu'n electronig fel y bo'n briodol.

Neilltuwyd y lliwiau canlynol ar gyfer dyfeisiau penodol:

Melyn	I'w ddefnyddio ar dagiau electronig yn unig (gan gynnwys y tag lladd electronig).
Coch	I'w ddefnyddio ar dagiau cyfnewid yn unig (tagiau cyfnewid electronig a chonfensiynol).
Du	I'w ddefnyddio ar gyfer y tag clust/marc bigwrn confensiynol yn unig gyda bolws electronig yn y rwmen.

Mae'n rhaid i'r rhifau a'r llythyren ar bob dyfais adnabod fod yn lliw gwahanol i liw cefndir y ddyfais a rhaid iddo fod yn ddarllenadwy.

Beth yw tag lladd Electronig?

Bydd yn rhaid rhoi dyfais adnabod **EID llawn** ar wŷn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y DU cyn iddynt gyrraedd 12 mis oed neu:

- Tag lladd batsh electronig sengl, sy'n dangos "UK" a rhif diadell, **A** microsglodyn electronig swyddogol â rhif unigol arno o fewn y tag.

Er hwylustod, darllenwch y tabl isod am yr opsiynau tagio:

Dewisiadau tagio	Gofynion tagio ar gyfer pa anifail
EID llawn	wŷn a gedwir y tu hwnt i 12 mis at ddibenion magu wŷn y bwriedir eu lladd hesbinod stôr/tew y bwriedir eu lladd ond a gedwir y tu hwnt i 12 mis oed wŷn y bwriedir eu hallforio'n fyw
Tag lladd electronig	wŷn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y DU cyn iddynt gyrraedd 12 mis oed

Opsiynau Uwchraddio a Chyfnwid Tagiau

Mae'n rhaid i wŷn sydd â thag lladd electronig, nad oes modd eu holrhain, gael eu lladd cyn iddynt gyrraedd 12 mis oed.

Gellir uwchraddio wŷn sydd â thag lladd electronig, y mae modd eu holrhain, i EID llawn erbyn iddynt gyrraedd 12 mis oed.

Mae'r tabl canlynol yn esbonio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer uwchraddio a chyfnwid tagiau wŷn a defaid sy'n cael eu geni neu sydd heb eu geni ar y daliad geni.

Rheolau cyfnewid ar gyfer tagiau sydd ar goll, wedi'u difrodi neu rai aneglur

Ar y Daliad Geni		Oddi ar y Daliad Geni	
Oedran	Math o dag	Opsiynau cyfnewid	Lliw'r tag
Dros 12 mis oed	EID llawn	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: 1. Eu cyfnewid am yr un rhif neu 2. Torri ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl a'i chyfnewid am set newydd o ddyfeisiau EID llawn	Mae angen cyfnewid tagiau sydd ar goll neu'n aneglur o fewn 28 diwrnod i'w darganfod, neu cyn gadael y daliad geni os yw cyn hynny.
I'w lladd dan 12 mis oed	Tag lladd electronig	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: Eu cyfnewid am dag lladd EID arall â'r un rhif diadell	GOCH
Defaid wedi'u tagio cyn 2010	Tagiau dwbl/tagiau sengl â rhif diadell UK a rhif 6 digid	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: 1. Eu cyfnewid am yr un rhif neu 2. Torri ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl a'i chyfnewid am set newydd o dagiau daliad geni UK dwbl GOCH neu ddiadell neu ddyfeisiau EID llawn	Mae croesyfeirio yn golygu cofnodi'r hen rif adnabod yn erbyn y rhif adnabod newydd, ond os yw'r ddau dag ar goll nid yw croesyfeiriad yn bosibl. Fodd bynnag mae'n rhaid cofnodi'r cyfnewid yn llyfr y ddiadell.
Croes gyfeiriad llyfr y ddiadell		Oddi ar y Daliad Geni	
Opsiynau cyfnewid	Lliw'r tag	Opsiynau cyfnewid	Lliw'r tag
Os torrir ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl, cofnodwch yn llyfr y ddiadell y rhif adnabod blaenorol a'r rhif adnabod newydd (croesyfeiriad)	MELYN	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: 1. Eu cyfnewid am yr un rhif neu 2. Torri ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl a'i chyfnewid am set o ddyfeisiau EID llawn GOCH	Mae angen cyfnewid tagiau sydd ar goll neu'n aneglur o fewn 28 diwrnod i'w darganfod, neu cyn gadael y daliad geni os yw cyn hynny.
Os yw rhifyn Ddiadell yr un peth, nid oes angen cofnodi hynny.	MELYN	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: Eu cyfnewid am dag lladd EID GOCH sy'n dangos rhif eich diadell	GOCH
Os torrir ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl, cofnodwch yn llyfr y ddiadell y rhif adnabod blaenorol a'r rhif adnabod newydd (croesyfeiriad)	MELYN	Os ydynt ar goll/wedi'u difrodi/yn aneglur: 1. Eu cyfnewid am yr un rhif neu 2. Torri ymaith y ddyfais adnabod sydd ar ôl a'i chyfnewid am set newydd o dagiau daliad geni UK dwbl GOCH neu ddiadell neu ddyfeisiau EID llawn GOCH	Mae croesyfeirio yn golygu cofnodi'r hen rif adnabod yn erbyn y rhif adnabod newydd, ond os yw'r ddau dag ar goll nid yw croesyfeiriad yn bosibl. Fodd bynnag mae'n rhaid cofnodi'r cyfnewid yn llyfr y ddiadell.

Tagiau metel

Cewch ddefnyddio tag metel fel y tag confensiynol ar y set EID llawn.

Cewch dynnu tagiau metel er mwyn rhoi rhai eraill yn eu lle cyn belled nad oes perygl i les yr anifail¹.

Bolws electronig

Gallwch ddefnyddio bolws EID yn y rwmen a thag clust confensiynol du i adnabod defaid.

Os yw'r tag clust du yn mynd ar goll bydd rhaid rhoi tag du "tebyg" yn ei le ar y ddafad (gyda'r un rhif), fel bod rhif y tag du newydd yr un peth â rhif y bolws.

Os rhagdybir bod y bolws ar goll neu nad oes modd ei ddarllen bellach, bydd yn rhaid rhoi bolws electronig tebyg yn ei le.

Bydd angen bod yn siwr bod y bolws ar goll neu wedi torri trwy chwilio amdano sawl gwaith ar sawl diwrnod gwahanol.

Nid yw bolws Cynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru (WEGS) yn ddyfeisiau adnabod EID swyddogol at ddibenion da byw².

Tatw

Gellir defnyddio'r tatw fel dyfais adnabod weledol os nad yw'r anifail yn cael ei werthu i wlad arall o fewn y gymuned (allforio).

Gellir rhannu'r rhif adnabod llawn rhwng y ddwy glust (h.y. "UK" + rhif diadell ar un glust a rhif unigol yr anifail ar y glust arall).

¹ Fe'ch cyngorir i ymgynghori â'ch milfeddyg preifat

² Nid argymhellir defnyddio mwy nag un ddyfais adnabod electronig.

Adran Tri: Cofnodion

Y gofynion cofnodi yn Llyfr y Ddiadell

Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i geidwaid gadw cofnod o:

- Rhif y daliad (CPH).
- Cyfeiriad y daliad a chyfeirnod grid y daliad (cyfeirnod map 6 digid yr OS) neu wybodaeth gyfatebol a fyddai'n dangos lleoliad y daliad.
- Beth mae'r daliad yn ei gynhyrchu.
- Y nifer a gofnodwyd yn y stocrestr flynyddol ddiweddaraf a dyddiad llunio'r stocrestr honno.
- Enw a chyfeiriad y ceidwad.
- Rhif unigol llawn yr anifail.
- Daliad geni, blwyddyn geni a dyddiad adnabod yr anifail.
- Mis a blwyddyn marwolaeth.
- Y brîd a'r genoteip (os yw'n hysbys).

Yn achos anifail sy'n gadael y daliad:

- Enw'r cwmni cludo.
- Rhif cofrestru'r cerbyd sy'n cludo'r anifeiliaid.
 - Y rhif CPH neu enw a chyfeiriad y daliad y mae'r anifail yn mynd iddo neu, yn achos anifeiliaid sy'n cael eu symud i ladd-dy, cod adnabod neu enw'r lladd-dy a'r dyddiad gadael.
 - Gall y ceidwaid gadw'r Ffurflen AML1 yn hytrach na chwblhau cofnodion am symudiad **O'R** daliad yng nghofrestru'r daliad. **Rhaid cadw'r dogfennau hyn mewn trefn gronolegol.**
- Rhif unigol llawn yr anifail neu, os oes ganddo dag lladd electronig sengl, rif diadell y DU.
- Gall y ceidwaid gadw'r Ffurflen AML1 yn hytrach na chwblhau cofnodion am symudiadau **O'R** daliad yng nghofrestru'r daliad.

Symudiadau i'r daliad yn unig:

- Rhif unigol llawn yr anifail neu, os oes ganddo dag lladd electronig unigol, rif diadell y DU.
- Yn achos anifeiliaid sy'n **cyrraedd** y daliad, y CPH neu gyfeiriad llawn y daliad y symudwyd yr anifail ohono a'r dyddiad cyrraedd.
- Gwybodaeth am gyfnewid unrhyw ddyfais adnabod.

Y Stocrestr Flynyddol

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i geidwaid gwblhau Stocrestr Flynyddol o dan Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

Dylai nifer y defaid a gofnodir gynnwys defaid magu, hyrddod, wŷn gwryw, wŷn stôr ac wŷn wedi'u pesgi, mamogiaid/hyrddod i'w difa a defaid eraill. Mae'n rhaid ichi hefyd gofnodi nifer y defaid a geifr ar eich daliad ar y dyddiad dynodedig yn Llyfr y Ddiadell ar eich fferm.

Rhaid ichi restru pob rhif daliad os mai chi yw perchennog y defaid a/neu'r geifr ar y dyddiad dynodedig. Mae hyn yn cynnwys tir comin a thir dros dro.

Bydd methu â chwblhau'r stocrestr yn golygu mwy o risg o gael eich dewis i gael archwiliad.

Gallwch gwblhau'r stocrestr ar-lein ar www.eidcymru.org

Gwaredu carcassau

Mae'r rheoliadau ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i geidwaid gadw cofnodion o garcasau a anfonir i'w gwaredu a dogfennau masnachol cysylltiedig.

Mae'n rhaid i'r ddogfen fasnachol restru:

- disgrifiad manwl o'r cynnwys, gan gynnwys categori a maint
- dyddiad cludiant
- cyfeiriad y daw'r carcass ohono ac mae'n mynd iddo, ac enwau cyswllt yn y ddau le
- cymeradwyaeth neu rifau cofrestru ar gyfer y cludwr neu safle gwaredu
- llofnod pwy bynnag sy'n gyfrifol am y cynnwys
- rhifau tag clust a manylion rhywogaethau.

Dylech gadw copi o'r ddogfen fasnachol am 2 flynedd o leiaf.

Mae'n rhaid cadw cofnodion llawn am bob dafad, mor bell yn ôl â'i geni, am 3 blynedd o leiaf o'r dyddiad y maent yn symud i ffwrdd neu'n marw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi llyfr i gofnodi manylion y ddiadell. Gellir cael copïau o Ganolfan Cyswllt i Gwsmeriaid RWP, Swyddfeydd Rhanbarthol Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion neu gan EIDCymru.

Gellir ychwanegu rhestrau o rifau adnabod unigol at unrhyw un o'r adrannau yn llyfr y ddiadell, h.y. rhestr o anifeiliaid unigol a gyflwynir mewn Canolfan Gofnodi Ganolog (CPRC).

Nid yw'n orfodol defnyddio y llyfr diadell hwn. Os yw'n well gennych ddefnyddio dulliau eraill o gofnodi, h.y. cofnodion cyfrifiadurol, mae'n rhaid iddynt gofnodi'r un wybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol gan lyfr diadell Llywodraeth Cymru.

Adran Pedwar: Symudiadau ac Adrodd am Symudiadau

Rhaid cofnodi symudiad pob dafad o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r symudiad hwnnw ddigwydd.

Mae gofyn i geidwaid defaid gofnodi rhifau tag unigol defaid ar y ffurflen symud (Ffurflen AML1). Mae'r tabl isod yn dangos y gofynion cofnodi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd:

Testun glas – Dogfen symud

Testun coch – Llyfr y Ddiadell

Defaid	Unrhyw fath o Symudiadau
Ag EID llawn	Rhif adnabod unigol llawn e.e. UK074123600001 (Dogfen symud) Rhif adnabod unigol llawn UK074123600001 (Llyfr y Ddiadell)
Wyn â thag lladd electronig unigol	Cyfanswm yr ŵyn sy'n cael eu symud (Dogfen symud) Cyfanswm yr ŵyn a symudir gan gofnodi pob rhif diadell gwahanol e.e. UK741234 X 24; UK741235 X 26 Cyfanswm yr ŵyn sy'n cael eu symud = 50 (Llyfr y Ddiadell)

Ffurflen Trwydded Symud Anifeiliaid (AML1)

Gall ffermwyr naill ai gofnodi symudiadau defaid a geifr yn electronig neu ar bapur. Bydd yn rhaid i Ganolfannau Cofnodi Canolog adrodd am symudiadau yn electronig drwy EIDCymru.

Noder o 01 Medi 2018 bydd yn ofynnol cofnodi'r holl rifau tag unigol ar y drwydded symud a llyfr y ddiadell pan fyddwch yn symud anifeiliaid o fewn eich busnes/yr ydych yn berchen arnynt i rif daliad gwahanol. Os ydych yn symud ŵyn â thag lladd electronig, bydd yn ofynnol cofnodi nifer yr ŵyn fesul rhif diadell yn llyfr y ddiadell

Os ydych yn adrodd am symudiadau drwy www.eidcymru.org, bydd modd ichi ddefnyddio'r botwn "return move" pan fyddwch yn dod â'r anifeiliaid adref.

EIDCymru

Cronfa ddata i gofnodi symudiadau anifeiliaid yn electronig yw EIDCymru, ac mae'n darparu system fodern a chadarn o olrhain yng Nghymru i alluogi ymateb cyflym ac effeithiol pe bai achosion o glefyd. Mae EIDCymru hefyd yn cynnig gwasanaeth swyddfa i ymdrin ag ymholiadau sy'n ymwneud â system EIDCymru. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar flaen y llyfryn hwn yn ogystal ag oriau agor y swyddfa.

Os ydych yn defnyddio pecyn meddalwedd rheoli fferm, gallwch gofnodi symudiadau eich defaid a geifr yn awtomatig i EIDCymru os yw eich pecyn yn gallu cysylltu ag EIDCymru.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngwrwyd, ac nad ydych ar hyn o bryd yn defnyddio meddalwedd rheoli fferm i gofnodi eich symudiadau, gwefan EIDCymru (www.eidcymru.org) yw'r ffordd hawsaf ichi gofnodi eich symudiadau.

Mae gan wefan EIDCymru ganllawiau i ddefnyddwyr ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Ffurflenni AML1 (Trwydded Symud)

Mae ffurflenni AML1 ar gael oddi wrth wasanaeth swyddfa EIDCymru os ydych yn cofnodi symudiadau ar bapur.

Gallwch gael trwydded symud oddi wrth EIDCymru. **Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar ddechrau'r llyfryn hwn.**

Rheoliadau WATO (Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo))

Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i gludwyr gario dogfen y cyfeirir ati fel Tystysgrif Cludo Anifeiliaid.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cludwyr gofnodi o ble daw'r anifeiliaid a'u perchennog, y man gadael a phen y daith, a hyd disgwylidig y siwrnai arfaethedig. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwirio ac asesu amseroedd siwrnai a hyd y daith. Mae Adran 2 ffurflen AML1 yn cynnwys y rheoliadau WATO a bennir ar gyfer Cymru.

Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRC)

Pan fydd angen rhifau adnabod unigol, gall ceidwaid gofnodi'r symudiadau o'r daliad fesul batsh ar ddogfen symud a defnyddio gwasanaethau Canolfan Gofnodi Ganolog gymeradwy. Bydd y CPRC yn darllen ac yn cofnodi'r rhifau adnabod unigol wrth i'r defaid gyrraedd y cyrchfannau (h.y. marchnadoedd a lladd-dai).

Cyfrifoldeb y ceidwad fydd hi o hyd i gofnodi'r rhifau adnabod perthnasol (rhifau unigol neu farc y ddiadell) ar y ddogfen symud a llyfr y ddiadell.


Pan fydd y perchennog/ceidwad yn dewis defnyddio gwasanaeth CPRC, rhaid dilyn y drefn ganlynol:

- Y ceidwad i gofnodi fesul batsh yn llyfr y ddiadell ac ar ffurflen AML1.
- CPRC yn darllen y rhifau adnabod unigol ac yn cyfrif cyfanswm y defaid a dderbynnir.
- CPRC yn darparu'r rhifau adnabod a'r nifer i'r ceidwad o fewn 48 awr.
- Y ceidwad yn rhoi'r rhifau adnabod yn ei gofnod neu'n croesgyfeirio'r ddogfen a ddarperir gan y CPRC yn ei gofnodion.
- Os ydych yn prynu anifeiliaid mewn marchnad, bydd y CPRC yn rhoi gwybod am y symudiad i EIDCymru, yna gallwch fewngofnodi i EIDCymru, gwirio a derbyn y symudiad neu anfon y drwydded drwy'r post at EIDCymru (cofiwch anfon copi o rifau'r tagiau fel y gall staff y swyddfa ddilysu'r symudiad a gofnodwyd gan y farchnad).


Pori dros dro/rhentu tir

Os ydych chi'n rhentu tir neu'n anfon eich defaid i bori ar dir arall, gallai hynny effeithio ar bwy sy'n cael ei weld fel ceidwad yr anifail at ddibenion archwilio a lles. Mae'r siart isod yn cynnig cyngor.

Rhoi **eich stoc** i bori ar dir rhywun arall



Pori stoc rhywun arall ar **eich tir chi**



*Mae canllawiau ar feini prawf meddiannaeth unigol, TLA dros dro/CPH dros dro a'r prosiect CPH yn yr eirfa ac ar www.llyw.cymru/prosiectcph.

Rydym wedi nodi isod enghreifftiau o drefniadau pori dros dro.

Enghraifft 1

Mae Ffermwr A, ffermwr sydd wedi ymddeol, yn berchen ar fferm yr Hendre ac yn byw yna. Mae'n rhentu'r tir i Ffermwr B ac yn cadw defaid arno.

Ffermwr B sy'n gyfrifol am y defaid a ddylai gael ei gofrestru fel y ceidwad.

Gall naill ai gael TLA, os yw'r tir o fewn 10 milltir neu tCPH os yw'r tir fwy na 10 milltir i ffwrdd. Gellir Ffermwr B ychwanegu CPHs i'w cyfrif EIDCymru dim ond os yw'n berchen ar y tir, yn rhentu'r tir neu os yw'n gyfrifol am y tir.

Enghraifft 2

Mae Ffermwr C, ffermwr godro yn Sir Benfro, yn rhentu tir i Ffermwr D, ceidwad defaid ym Mhowys, am y gaeaf.

Os Ffermwr C yw'r ceidwad, yna rhaid i Ffermwr D drwyddedu'r defaid o dan rif daliad Ffermwr C a rhaid i Ffermwr C gadw cofnod diadell, cadw'r tagiau, cael gwared ar garcasai a bod yn gyfrifol am les y defaid.

Os nad yw Ffermwr C am fod yn gyfrifol am y defaid, yna rhaid i Ffermwr D gael tCPH ar gyfer y tir yn Sir Benfro a bod yn gyfrifol am les y defaid o ddydd i ddydd ac am dagiau ac am nodi symudiadau'r defaid*.

* Gall Ffermwr D 'cyflogi' Ffermwr C neu rywun arall yn yr ardal i gadw golwg reolaidd ar ei ddefaid, ond Ffermwr D fydd yn gyfrifol am yr anifeiliaid o hyd.

Tir Comin

Mae ceidwad sydd â hawliau pori tir comin yn cael symud ei ddefaid i'r tir comin.

Mae'r rheolau symud ar dir comin yn wahanol, gan ddibynnu ar natur cysylltiad y tir comin â'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL).

Tir comin cyffiniol

Gall ceidwaid sydd â Phrif Leoliad Cynhyrchu (PPL) sy'n ffinio â thir comin gysylltu eu daliad â'r tir comin. Mae'n rhaid bod gan geidwaid hawl cyfreithiol i bori'r comin. Ystyrir tir sydd wedi'i gysylltu yn un daliad a bydd ganddo un rhif daliad.

Mae hyn yn golygu:

- Gall ceidwaid da byw symud anifeiliaid rhwng tir sydd â'r un rhif daliad heb fod angen rhoi gwybod a chofnodi'r symudiadau hynny a heb orfod cadw at gyfnod gwahardd symud.
- Gan ddilyn y rheolau cyfredol, pan fydd anifeiliaid sy'n dychwelyd o dir comin i'r PPL cyffiniol, ni fydd fydd modd symud anifeiliaid y daliad i unrhyw fan arall ac eithrio yn ôl i'r tir comin. Mae'n rhaid i symudiadau i'r tir comin ac oddi arno fynd trwy'r daliad cyffiniol.

Dylai ceidwaid ddefnyddio gwasanaeth Rheoli Fy CPH ar RPW Ar-lein os ydynt yn dymuno cynnwys tir comin cyffiniol yn eu daliad.

Tir comin nad yw'n gyffiniol

Lle nad yw tir comin yn ffinio â'r PPL, **nid oes modd ei uno** yn un daliad sengl.

Mae hyn yn golygu:

- **Rhaid** cofnodi symudiadau i/o dir comin nad yw'n gyffiniol yn llyfr y ddiadell ac adrodd amdanynt drwy EIDCymru neu drwydded symud/dogfen (AML1).
- Dylai ceidwaid ddefnyddio'r CPH sy'n benodol i ddefaid ar gyfer y tir comin (gan ddechrau gyda 00/000/XXXX). Dylai cwsmeriaid anfon neges ar-lein i RPW yn cynnwys manylion y tir comin nad yw'n ffinio er mwyn i RPW gofrestru'r defnydd o'r tir comin i bori defaid.

- Cadw at y cyfnod gwahardd symud – gan ddilyn y rheolau cyfredol, pan fydd anifeiliaid sy'n dychwelyd o dir comin i'r PPL, ni fydd modd symud anifeiliaid y CPH i unrhyw fan arall ac eithrio yn ôl i'r tir comin. Mae'n rhaid i symudiadau i'r tir comin ac oddi arno fynd trwy CPH y ceidwad.

Mae manylion pellach ar:
www.llyw.cymru/prosiectcph.

Gwybodaeth am y gadwyn fwyd

Ers 1 Ionawr 2010 mae'n ofynnol i berchnogion lladd-dai wneud cais, derbyn, gwirio a gweithredu Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer pob dafad a dderbynnir mewn lladd-dy. Mae'r rheolau yn effeithio ar bob lladd-dy ym Mhrydain Fawr.

Mae cynhyrchwyr defaid wedi gorfod darparu gwybodaeth am y gadwyn fwyd ar gyfer yr holl ddefaid sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ladd-dai ers 1 Ionawr 2010.

- Mae'r FCI sy'n ofynnol yn cynnwys darparu rhif adnabod yr anifail neu'r anifeiliaid batsh, a lynwyd neu beidio at gyfnodau meddyginiaeth filfeddygol o gadw anifeiliaid o'r gadwyn fwyd, a statws clefyd yr anifeiliaid sy'n mynd i gael eu lladd.

Ar flaen y ffurflen AML1 mae blwch ticio ynghyd â datganiad FCI cyfatebol ar ochr arall y copi pinc o'r drwydded bapur. Os yw'r defaid/ŵyn sy'n mynd i gael eu lladd yn **bodloni'r** datganiad FCI, yna mae angen i'r ceidwaid dicio'r blwch yn unig.

Os **nad yw'r anifeiliaid yn bodloni'r** datganiad FCI yna mae'n rhaid i geidwaid dicio'r blwch a llenwi'r wybodaeth ychwanegol ar ochr arall y copi pinc o'r Ffurflen AML1. Noder mai dim ond ar gyfer anifeiliaid sy'n mynd i gael eu lladd y mae angen FCI.

Os yw ceidwaid yn symud anifeiliaid stôr neu ddefaid i'w magu, ac ati, yna mae angen iddynt lenwi'r AML1 yn unig, fel sy'n arferol.

Am ragor o fanylion ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd www.food.gov.uk/business-industry/guidancenotes/meatregsguid/fciguideance/fciew

Y rheolau chwech niwrnod ar wahardd symud

Pan fydd defaid a geifr yn cyrraedd y daliad, mae'r **holl dda byw** ar y daliad yn cael eu gwahardd rhag symud er mwyn helpu i leihau'r perygl o ledaenu clefydau. Mae'n golygu bod yn rhaid i'r holl ddefaid, geifr, gwartheg a moch aros ar y daliad hwnnw am y chwech niwrnod nesaf. Os caiff defaid eu symud i ddaliad ar ddydd Llun, ni fyddent yn glir i gael eu symud oddi ar y daliad hwnnw tan y dydd Llun canlynol.

Unedau Cwarantin

Cyflwynwyd Unedau Cwarantin (QU) gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i ddisodli'r eithriadau i'r 6 niwrnod o wahardd symud (6DSS) a ddarperir gan Gyfleusterau Ynysu.

Mae'r Unedau Cwarantin yn darparu eithriad i geidwaid da byw o ran y trefniadau 6DSS ar gyfer gwartheg, defaid a geifr. Ni fydd symudiadau i Unedau Cwarantin yn golygu y bydd gofynion 6DSS ar y prif ddaliad, gan ganiatáu i anifeiliaid gael eu symud oddi ar y prif ddaliad tra bydd anifeiliaid sy'n cyrraedd y daliad yn cadw at ofynion 6DSS yr Uned Gwarantin. Gall ceidwaid da byw ddewis rhwng defnyddio unedau cwarantin cymeradwy i reoli symudiadau gwartheg, defaid a geifr neu gadw at ofynion 6DSS ar y daliad cyfan.

Nawr bod y system Unedau Cwarantin ar waith, ni ellir defnyddio Cyfleusterau Ynysu Cymeradwy bellach fel eithriad i'r 6DSS ar gyfer gwartheg, defaid a geifr. Gall fod hyd at ddwy Uned Gwarantin ar ddaliadau sy'n cael eu ffermio a gall pob Uned Gwarantin gynnwys hyd at ddau safle.

Mae'n rhaid i Unedau Cwarantin gael eu hardystio gan Gorff Ardystio a achredir gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).

Am ragor o wybodaeth ewch i'n Cwestiynau Cyffredin ar Unedau Cwarantin ar:

<https://beta.llyw.cymru/unedau-cwarantin-da-byw-cwestiynau-cyffredin>

Rheolau allforio

Os ydych yn allforio defaid a geifr, naill ai i wlad arall yn yr UE neu i wlad y tu allan i'r UE, rhaid rhoi Dyfais Adnabod Electronig (EID) lawn ar eich anifeiliaid.

O 1 Ionawr 2021, bydd angen tagiau clust EID llawn, yn cynnwys codau gwlad 'UK' a 'GB', marc y ddiadell a rhif yr anifail, ar eich defaid a geifr.

Tag presennol	Tag Allforio
Ŵyn sydd heb eu tagio eto	Tagiau EID llawn, gyda chod 'UK', rhif adnabod yr anifail a chod 'GB'
Tag EID llawn	Trydydd tag (rheoli) gyda chod 'GB' a rhif adnabod yr anifail. Rhaid printio'r tag a gall fod o unrhyw liw heblaw melyn neu goch.
Tag lladd	Rhowch yn ei le dagiau EID llawn gyda chod 'UK' rhif yr anifail a chod 'GB'. Os ydy'r ŵyn ar y daliad geni o hyd, rhaid i'r EID lawn fod yn felyn Os ydy'r ŵyn yn cael eu haildagio ar ddaliad arall heblaw'r daliad geni, rhaid i'r EID lawn fod yn goch .

Chewch chi **ddim** allforio ŵyn â thagiau lladd arnyn nhw, er gallwch roi EID llawn yn eu lle, **cyn belled â bod modd eu holrhain yn llawn**. Rhaid croesgyfeirio'r hen rifau a'r rhifau newydd yn llyfr y ddiadell.

Os ydych am anfon anifeiliaid i'w hallforio, rhaid cadw'r holl anifeiliaid ar y **daliad am o leiaf 40 niwrnod cyn eu hallforio**. Cyfeirir at hyn fel y gofyn i gadw.

Am ragor o wybodaeth am allforio defaid a geifr, ewch i www.gov.uk

Rheolau mewnforio

Os ydych yn dod â defaid neu eifr i Gymru o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gofalgwch eu bod wedi'u tagio yn unol â chyfraith y wlad y maen nhw'n dod ohoni. Pan fydd anifeiliaid yn cyrraedd eich daliad, rhaid cofnodi manylion y symudiad yn llyfr y ddiadell, naill ai fesul anifail neu fesul batsh.

Pan fyddwch yn derbyn yr anifeiliaid, cofnodwch y symudiad ar EIDCymru trwy:

- Dderbyn y symudiad ar EIDCymru ar-lein, os yw'r ceidwad sy'n eu hanfon/CPRC wedi'i gofnodi.
- Cofnodi'r symudiad ar EIDCymru ar-ein, os nad yw'r ceidwad sy'n eu hanfon/CPRC wedi'i gofnodi.
- Anfon yr AML1 neu ffurflen y farchnad at EIDCymru.

Dylech wneud hyn o fewn 3 niwrnod ar ôl y symudiad.

Gofalgwch fod gan anifeiliaid sy'n cyrraedd o Ogledd Iwerddon dystysgrif iechyd. Cadwch hi yn eich ffeiliau.

Pan fyddwch yn symud yr anifeiliaid hyn oddi ar eich daliad, rhaid dilyn y rheolau ar gyfer symud o fewn Cymru:

- Cofnodwch y symudiad (naill ai fesul anifail neu fesul batsh) yn llyfr y ddiadell.
- Rhowch wybod i EIDCymru ar-lein am y symudiad neu anfonwch AML1 at EIDCymru.

Adran Pump: Archwiliadau

Cynhelir archwiliadau i sicrhau bod ceidwaid yn cydymffurfio â holl ofynion cofrestru ac adnabod defaid a geifr.

Yn ôl Rheoliad (y CE) Rhif 1505/2006 y Comisiwn:

- Bydd pob Aelod-wladwriaeth yr UE yn archwilio bob blwyddyn o leiaf 3% o'i daliadau, gan gynnwys o leiaf 5% o'r holl anifeiliaid (defaid a geifr).
- Caiff y daliadau eu dewis yn sgil ddadansoddi'r risg. Pennir y meini prawf yn y Rheoliad. Mae'n rhaid i'r archwiliadau fod yn ddirybudd ond weithiau gellid rhoi hyd at 48 awr o rybudd.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru anfon adroddiad blynyddol ar ganlyniadau'r archwiliad i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 31 Awst bob blwyddyn.

Sut y Dewisir Ffermydd i'w Harchwilio?

Cynhelir yr archwiliadau yng Nghymru gan Arolygiaeth Wledig Cymru. Mae'r archwiliad yn ystyried nifer o ffactorau megis yr amser ers yr archwiliad diwethaf, nifer y defaid (a/neu eifr) ar y daliad a gwallau a welwyd mewn archwiliadau blaenorol ac ati. Dylai ceidwaid fod yn ymwybodol eu bod yn fwy tebygol o gael eu harchwilio os oes problemau wedi dod i'r amlwg yn ystod archwiliad blaenorol.

Sut i baratoi?

- Cyfrif yr holl stoc a chofnodi ffigurau cywir ar gyfer 1 Ionawr bob blwyddyn.
- Cyflwyno eich Stocrestr Flynyddol (dylai hon gyfateb i'r ffigur stoc yn eich cofnodion).
- Sicrhau bod eich cofnodion yn gyflawn ac wedi eu diweddarau.
- Sicrhau bod Trwyddedau Symud ar gael ac yn cael eu cadw yn nhrefn dyddiad.

- Sicrhau y cofnodir marwolaethau a bod y ddogfennaeth gefnogol yn cyd-fynd â hynny e.e. iard gelanedd/cytiau hela/ Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (NFSCo).
- Dylid tagio defaid a geifr yn gywir a chael tagiau newydd yn lle'r rhai a gollwyd o fewn 28 diwrnod i ddarganfod eu bod wedi mynd ar goll.
- Gwirio niferoedd y defaid ar eich daliad/au.
- Sicrhau bod y cyfleusterau trin yn ddiogel ac yn gadarn a bod y gweithlu'n ddigonol.

Beth fydd yr Archwilydd yn ei wneud?

Gwiriad corfforol

- Cyfrif pob dafad ar bob daliad yr ydych yn geidwad arno.
- Gwirio'r tagiau clust ar sampl o ddefaid ar bob un daliad.
- Gwirio tagiau na ddefnyddiwyd.

Gwiriad cofnodion

- Ffigurau'r Stocrestr Flynyddol/cyfrif stoc.
- Cofnod o enedigaethau/adnabod.
- Cadarnhau bod cofnodion symud a thrwyddedau yn cyfateb i'r manylion sydd gan y Safonau Masnach.
- Marwolaethau a gofnodwyd yn llyfr y ddiadell, wedi'u gwirio yn erbyn derbynebau iard gelanedd/cytiau hela/ Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (NFSCo).
- Cofnod o'r tagiau cyfnewid a ddefnyddiwyd.
- Cofnod o'r defaid a uwchraddiwyd o'r tag lladd.

Pa wybodaeth fydd gan yr archwilydd?

- Copi o'r Stocrestr Flynyddol.
- Manylion y trwyddedau a gyflwynwyd i EIDCymru.

Am faint y bydd yr Archwiliad yn para?

Mae hyn yn dibynnu ar faint eich daliad, nifer y defaid neu eifr sydd gennych ac ansawdd eich cofnodion. Bydd cofnodion clir a chywir yn lleihau amser yr archwiliad yn sylweddol. Y nod fydd cynnal yr archwiliad yn gyflym ac yn effeithlon a tharfu cyn lleied â phosib arnoch.

Gorfodi

Os gwelir anghysondebau yn ystod yr archwiliad, efallai y bydd angen gosod cyfyngiad ar symud y ddiadell/yr eifre gyfan ar y daliad. Mae'r cyfyngiad yn gwahardd symud anifeiliaid o'r daliad ac iddo. Ym mhob achos bydd y cyfyngiad yn para hyd nes yr unionir y diffygion ac efallai y bydd angen archwiliad dilynol.

Llyfryn Pan ddaw'r Archwilydd

Lluniwyd y llyfryn Pan ddaw'r Archwilydd i helpu'r ffermwr i baratoi ar gyfer archwiliad. Mae'n nodi'r hyn sydd angen iddo ei wneud cyn bod yr archwilydd yn galw yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd yn ystod archwiliad. Os nad ydych wedi gweld copi o "Pan ddaw'r Archwilydd", cysylltwch â Chanolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru neu galwch heibio Swyddfa Ranbarthol Taliadau Gwledig Cymru am gopi ohono.

Archwiliadau gan Asiantaethau Gorfodi Eraill

Mae gan swyddogaeth Iechyd Anifeiliaid yr Awdurdod Lleol (LAAHF) gyfrifoldeb dros orfodi gofynion cofnodi defaid a geifr. Yn ogystal ag ymweld â ffermydd maent yn cynnal archwiliadau mewn marchnadoedd ac ar ochr y ffordd i sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â da byw.

Adran Chwech: Geifr

Nid yw'r rheolau ar gyfer adnabod geifr yn newid ond mae'n ofynnol i geidwaid geifr gadw cofnodion unigol ar gyfer geifr sy'n cael eu geni ar ôl 31 Rhagfyr 2009. Dylid cadw'r cofnodion yn llyfr yr eifre oni bai fod ganddynt dag lladd (gweler y tabl isod) pan fydd cofnod fesul batsh yn ofynnol.

Ar hyn o bryd **nid** yw'n ofynnol adnabod geifr yn electronig gan fod poblogaeth geifr y DU yn llai na throthwy'r rheoliad o 160,000.

Pryd i roi dyfais adnabod

Fel yn achos defaid, ar gyfer geifr sy'n cael eu geni ar eich daliad, **rhaid rhoi dyfais adnabod briodol iddynt cyn eu symud o'r daliad neu iddynt gyrraedd:**

- **6 mis** oed os ydynt yn cael eu cadw o dan system ffermio dwys.
- **9 mis** oed os ydynt yn cael eu cadw o dan system ffermio llai dwys.

Sut i roi dyfais adnabod

Geifr	
Mae'r anifail yn mynd i gael:	Dewisiadau:
Ei ladd (cyn iddo fod yn 12 mis oed)	Tag clust sengl, EID yn ddewisol.
Ei fagu (wedi ei gadw ar ôl 12 mis oed)	Dwy ddyfais adnabod, EID yn ddewisol.

Gall ceidwaid ddewis defnyddio dyfais adnabod electronig fel y manylir arnynt yn Adran Tri y canllawiau hyn.

Gellir adnabod Myn Geifr y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y DU â thag lladd batsh sengl (confensiynol neu electronig), a fydd yn dangos rhif Eifre 'UK' yn unig.

Ni fydd **tagiau dwbl (nad ydynt yn electronig)** yn newid a byddant yn dangos Rhif UK yr eifre a rhif unigol chwe digid.

Mae amrywiaeth o ddyfeisiau adnabod ar gael sy'n cynnwys tagiau clust, tatŵs, a marciau bigwrn. Caniateir y cyfuniadau isod:

Cyfuniadau Geifr		
Dyfais adnabod gyntaf	Ail ddyfais adnabod	Gallu allforio?
Tag clust	Tag clust	Na. Rhaid i anifeiliaid sydd i'w hallforio gael EID llawn.
Tag clust	Tatŵ	
Tag clust	Marc bigwrn	Na
Tag electronig	Tag clust cyfatebol	ydy

Tagiau cyfnewid – Adran Dau mae'r gofynion ar gyfer geifr yr un peth â'r gofynion ar gyfer defaid oni bai bod dyfais adnabod electronig yn wirfoddol.

Cadw Cofnodion – Adran Tri mae'r gofynion ar gyfer geifr yr un peth â'r gofynion ar gyfer defaid.

Cofnodi Symud – Adran Pedwar mae'r gofynion ar gyfer geifr yr un peth â'r gofynion ar gyfer defaid.

Archwiliadau – Mae Adran Chwech y canllawiau hyn yn rhoi manylion yr hyn y gall archwilydd ei wneud os cewch eich dewis i gael archwiliad.

Termau

Anifeiliaid Anwes – Defaid neu Eifr	Mae rheolau adnabod a chadw cofnodion yn berthnasol i bob dafad a gafr, hyd yn oed y rhai a gedwir mewn niferoedd bach neu fel anifeiliaid anwes.
Bolws	Dyfais adnabod geramig electronig sy'n cael ei rhoi trwy'r geg a'i gadael yn y stumog.
Canolfannau Cofnodi Canolog	Gweler "Cofnodi gan Drydydd Parti".
Ceidwad	<p>Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi yr ystyrir bob amser mai'r unigolyn sy'n berchen ar anifail sy'n gyfrifol amdano.</p> <p>Er mai'r perchnogion fel arfer sy'n gyfrifol am eu da byw, gallant gytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb i unigolyn arall a'r unigolyn hwnnw fydd wedyn yn gyfrifol am gofnodi symudiadau a chadw cofnodion.</p>
Cofnodi Batsh o fewn Batsh (Wyn lladd)	Cofnodir batsh cymysg yn ôl nifer y defaid sydd wedi'u hadnabod gan bob rhif diadell.
Cofnodi gan Drydydd Parti	Proses lle mae safle (h.y. marchnad/lladd-dy) yn darparu gwasanaeth i ddarllen rhif adnabod unigol yr anifeiliaid wrth iddynt gyrraedd. Rhoddir rhestr o'r rhifau unigol i'r perchennog/ceidwad i'w cadw gyda'r dogfennau symud neu lyfr y ddiadell.
Cofnodi fesul batsh	Grŵp o ddefaid/geifr sy'n cael eu cofnodi yn ôl nifer y defaid sy'n cael eu symud.

Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA)	<p>Gall ceidwaid sy'n defnyddio tir am gyfnod dros dro sydd o fewn 10 milltir i'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) ddewis cysylltu'r tir hwnnw â'u rhif daliad parhaol drwy Gysylltiad Tir Dros Dro (TLA) am hyd at uchafswm o 364 diwrnod (gyda'r dewis i adnewyddu'n awtomatig bob blwyddyn).</p> <p>Rhaid i geidwaid fod â meddiannaeth unigol o'r tir ac ni all da byw gymysgu'n rhydd â da byw ceidwaid eraill.</p> <p>Yn ystod cyfnod y TLA, caiff y tir ei drin yn rhan o rif daliad parhaol y tenant at ddibenion adrodd am symudiad da byw.</p>
Daliad geni (HOB)	Y daliad lle caiff anifeiliaid eu geni.
Daliad – gweler hefyd Rif y Daliad (CPH)	Yr holl dir â rhif CPH unigol dan ein rheolaeth ni yn unig lle caiff defaid a/neu eifr eu cadw.
Dogfen Symud – Ffurflen Trwydded Symud Anifeiliaid (AML1)	<p>Dogfen gyfreithiol y mae'n rhaid ei llenwi bob tro yr ydych yn symud anifeiliaid rhwng daliadau gwahanol.</p> <p>Ar ôl eu llenwi dylid anfon y ffurflenni i EIDCymru o fewn 3 diwrnod i symud yr anifeiliaid.</p> <p>Dylai ceidwad/perchennog gadw copi o'r ffurflen gyda llyfr y ddiadell.</p>
Dyfais Adnabod	Tag clust, bolws, tatŵ neu farc bigwrn sy'n darparu'r rhif adnabod da byw swyddogol.
Dyfais Adnabod 'Gyfatebol' neu 'Debyg am Debyg' neu ddyfais sydd â'r un rhif cyfnewid	Dyfais adnabod sydd â'r un rhif yn union â'r ddyfais wreiddiol.
EID	Dyfais Adnabod Electronig.
EID llawn	Dwy ddyfais adnabod, un electronig ac un weledol.

EIDCymru	EIDCymru, cronfa ddata i Gymru sy'n cofnodi symudiadau yn electronig
ETAS – System Dyrannu Tagiau Clust	System gyfrifiadurol ganolog sy'n dyrannu rhifau swyddogol ar gyfer adnabod da byw.
Ffurflen AML1	Dogfen Trwydded Symud Anifeiliaid. Gweler y ddogfen symud.
Ffurflen y Stocrestr Flynyddol	Mae'r ffurflen hon yn hysbysu Llywodraeth Cymru o gyfanswm y defaid a/neu eifr ar ddaliad(au) pob perchennog ar 1 Ionawr bob blwyddyn.
Llyfr y Ddiadell – Defaid/Geifr	Cofnod o enedigaethau neu pryd tagiwyd anifail am y tro cyntaf, marwolaethau, dyfeisiau cyfnewid, uwchraddio, symudiadau anifeiliaid i'r daliad ac oddi ar ddaliad a ffigur(au) y stocrestr flynyddol. Cyfeirir ato hefyd fel cofrestr y daliad.
Marc Bigwrn	Dyfais adnabod electronig neu gonfensiynol sy'n debyg i strapen am figwrn/ffêr yr anifail.
Masnach o fewn y Gymuned	Symudiadau anifeiliaid byw rhwng aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.
Meddiannaeth unigol	Er mwyn bod yn gymwys am TLA neu tCPH, mae'n rhaid i geidwaid fod â meddiannaeth unigol ac ni all da byw gymysgu'n rhydd â da byw ceidwaid eraill.
Perchennog/Ceidwad	Y perchennog yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr anifeiliaid yn y pen draw ac fel arfer ef/hi yw'r ceidwad. Gall perchnogion gytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb i unigolyn arall a'r unigolyn hwnnw fydd wedyn yn gyfrifol am gofnodi symudiadau a chadw cofnodion.
Prif Ddaliad/Prif Safle	Lleoliad prif adeiladau a chyfleusterau da byw. Ystyrir pob parcel o dir o fewn 10 milltir i ffin y prif safle dan eich rheolaeth unigol chi yn rhan o'r prif ddaliad (CPH).

Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL)	Y PPL yw prif leoliad rhif y daliad a'r tir sydd o'i amgylch (sy'n ffinio'n uniongyrchol). Ffin allanol y PPL yw'r lleoliad o ble y caiff pob daliad a/neu barsel o dir tameidiog ei fesur mewn perthynas â'r rheol 10 milltir. Fel arfer y PPL yw lleoliad adeiladau'r da byw / parlyrau godro.
Rhif (Marc) y Ddiadell – Defaid Rhif yr Eifre- Geifr	Rhif chwe digid a roddir gan swyddfa ranbarthol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion sy'n rhoi rhif adnabod unigol i'ch diadell neu eifre.
Rhif Adnabod Unigol	Y rhif 5 digid sy'n dilyn marc y ddiadell neu'r eifre ar dagiau "EID llawn" neu dagiau cyfnewid coch "EID llawn". Rhif 6 digid yw hwn ar gyfer defaid a gafodd rhif adnabod cyn 31 Rhagfyr 2009 (tagio dwbl).
Rhif Daliad (CPH)	Rhif unigryw a roddir gan Daliadau Gwledig Cymru sy'n nodi'r lleoliad a'r tir a gynhwysir yn y daliad(au).
Rhif Daliad dros dro (tCPH)	Rhif daliad dros dro yw tCPH sy'n cael ei neilltuo i dir a ddefnyddir am hyd at uchafswm o 364 diwrnod, ac yna bydd yn dod i ben. Caiff tCPH ei ddyrannu o'r ystod 6000 (xx/xxx/6xxx) Gellir dyrannu tCPH i dir o fewn neu dros 10 milltir o'r Prif Leoliad Cynhyrchu. Rhaid i geidwaid fod â meddiannaeth unigol o'r tir ac ni chaiff da byw gymysgu'n rhydd â da byw ceidwaid eraill. Mae'n ofynnol rhoi gwybod am symudiadau i/o tCPH.
Tag Lladd Batsh Sengl Electronig	Tag sengl electronig sydd â'r llythrennau "UK" a rhif y ddiadell wedi'u printio ar y tu allan ond sy'n cynnwys rhif unigol yn y microsglodyn electronig y tu mewn i'r tag y gellir ei ddarllen â darllenydd EID. Fe'i defnyddir i adnabod wŷn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y DU cyn eu bod yn 12 mis oed.

Tatŵ	Dull adnabod gan ddefnyddio inc i greu nod parhaol yn y croen.
Uwchraddio i EID llawn	<p>Gellir uwchraddio (ail-dagio ag EID llawn) oen a gafodd tag lladd electronig sengl yn wreiddiol, dim ond os gellir darparu manylion olrhain cyflawn ar ei gyfer.</p> <p>Mae'n ofynnol bod pob daliad y bu'r oen ynddo ers ei eni yn cael ei gofnodi yn llyfr diadell y daliad lle mae'r uwchraddio'n digwydd.</p>